Ysgol Gyfun Cwm Rhondda
*Heol Graigwen*
*Cymer*
*Porth*
*Rhondda Cynon Taf*
*CF39 9HA*
*(01443) 680800* *swyddfa@ygcwmrhondda.cymru*

Mercher 10/3/21

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Gobeithio eich bod chi a'ch teuluoedd yn cadw'n dda.

Yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog Addysg ar Fawrth 3ydd yn cadarnhau cynllun ail-ddychwelyd disgyblion, dyma gadarnhau ein trefniadau ni fel ysgol ar gyfer y pythefnos yn cychwyn **dydd Llun 15ed o Fawrth i ddydd Gwener 26ain o Fawrth.**

Fel y gwyddoch, mae'r tirlun yn parhau'n gyfnewidiol, ond os yw'r lleihâd sylweddol yng nghyfradd trosglwyddo'r haint yn parhau, yna'r bwriad yw i holl ysgolion Cymru agor yn llawn yn dilyn Gwyliau'r Pasg ar ddydd **Llun Ebrill 12fed**.

Yn naturiol, rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at gael croesawu ein disgyblion nôl atom yr wythnos nesaf, ac er mwyn gallu gwneud hyn yn ddiogel, gan sicrhau lles a diogelwch disgyblion a staff, dyma gadarnhau trefniadau dychwelyd pob blwyddyn ar gyfer y cyfnod nesaf yma (**Llun 15/3 – Gwener 26/3 Mawrth).**

| | Blwyddyn | Trefniadau dod i'r ysgol: |
|---|---|---|
| **Wythnos yn dechrau 15 Mawrth** | **Blwyddyn 11** | Yn bresennol **pob dydd** o ddydd Llun 15/3 i ddydd Gwener 26/3 |
| | **Blwyddyn 13** | Yn bresennol **pob dydd** o ddydd Llun 15/3 i ddydd Gwener 26/3 |
| | **Blwyddyn 12** | Yn bresennol **pob dydd** o ddydd Mercher 17/3/21 i ddydd Gwener 26/3 |
| | **Blwyddyn 10** | **Dydd Gwener** 19/3 **a phob dydd o ddydd Llun** 22/3 i ddydd Gwener 26/3 |

| | | |
|---|---|---|
| **Wythnos yn dechrau 22 Mawrth** | **Blwyddyn 7** | Dydd Llun 22/3/21 a dydd Mawrth 23/3/21 **yn unig** |
| | **Blwyddyn 9** | Dydd Mawrth 23/3/21 a dydd Mercher 24/3/21 **yn unig** |
| | **Blwyddyn 8** | Dydd Iau 25/3/21 a Dydd Gwener 26/3/21 **yn unig** |

Yn ogystal â'r amserlen dychwelyd uchod, byddwn hefyd yn parhau i ddarparu gofal plant brys o fewn ein '**Hwb**' ysgol. Gofynnwn i rieni wneud cais yn unol â'r drefn arferol. Bydd disgyblion yr Hwb yn ymuno gyda gweddill eu blwyddyn ar y diwrnodau perthnasol.

Ar y diwrnodau sydd wedi eu dynodi ar gyfer pob blwyddyn, caiff ein disgyblion y cyfle i dderbyn cefnogaeth fugeiliol ar ffurf sesiwn lles bob bore a chyfle hefyd i dreulio amser gyda'u hathrawon pwnc i drafod profiadau dysgu o bell ein disgyblion a chynlluniau ar gyfer Tymor yr Haf. **Cynnig cefnogaeth ac anogaeth fydd ein prif ffocws ni wrth i'n disgyblion ail-ymgartefu.**

Ar y diwrnodau hynny lle **na fydd** y disgyblion yn mynychu'r ysgol, darperir gwaith ar Google Classroom yn ôl yr arfer a disgwylir i ddisgyblion ymgysylltu â'u dysgu o bell yn ystod y cyfnod yma.

Disgwyliwn i'n **holl** ddisgyblion ddychwelyd ar y dyddiau sydd wedi'u nodi uchod, heblaw am resymau iechyd neu'r angen i hunan-ynysu. Cofiwch gysylltu gydag Arweinydd Blwyddyn eich plentyn os hoffech drafod amgylchiadau unigol eich plentyn.

**Gwisg Ysgol**

Gofynnwn yn garedig i ddisgyblion wisgo gwisg ysgol ar y diwrnodau byddant yn bresennol yn yr ysgol. Mae caniatâd ganddynt i wisgo crys-t polo swyddogol yr ysgol, neu grys a thei.

**Gofynnwn yn garedig yn ogystal i ddisgyblion fydd yn mynychu'r Hwb i wisgo gwisg ysgol yn ystod y cyfnod y byddant yn mynychu'r Hwb.**

**Cinio**

Gofynnwn yn garedig i rieni barhau i ddarparu pecynnau bwyd ar gyfer eu plentyn ar gyfer y bythefnos hon (15 Mawrth – 26 Mawrth). Caiff pecyn bwyd ei ddarparu i ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau am ddim.

**Gorchuddion Wyneb**

**Dylid gwisgo gorchudd wyneb ar bob achlysur, gan gynnwys coridorau, trafnidiaeth ysgol ac ystafelloedd dosbarth lle nad oes modd pellhau yn gymdeithasol**. Byddwn yn annog ein disgyblion i osgoi gwisgo a thynnu'r gorchudd yn rheolaidd er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo haint i'r dwylo a'r wyneb. Darperir masgiau meddygol un tro i staff yr ysgol.

Os oes gan eich plentyn rheswm meddygol dros beidio â gwisgo gorchudd, ni fyddwn yn disgwyl iddo wneud.

Gofynnwn i unrhyw ymwelydd â'r ysgol i wisgo gorchudd.

**Cofiwch hefyd nad yw gwisgo gorchudd wyneb yn dileu'r angen i sicrhau hylendid dwylo a phellhau yn gymdeithasol.**

**Trafnidiaeth Ysgol**

Bydd ein bysiau ysgol yn rhedeg yn ôl yr arfer. Mae'n ofynnol i bob disgybl sy'n teithio ar fws ysgol i wisgo gorchudd wyneb.

**Profion Llif Unffordd**

O Fawrth 15fed, bydd cyfle i ddisgyblion ym Mlynyddoedd 10, 11, 12 a 13 i gymryd prawf llif unffordd ddwywaith yr wythnos yn eu cartrefi. Mae ein staff hefyd wedi derbyn yr un cyfle.

Rydym yn aros am arweiniad pellach ar hyn a byddwn yn rhannu canllawiau gyda chi unwaith i ni ei derbyn gan Lywodraeth Cymru.

**Dysgu o Bell**

Bydd ein darpariaeth trwy Google Classroom yn parhau ar y diwrnodau hynny na fydd eich plentyn yn mynychu'r ysgol a gofynnwn i chi fel rhieni i barhau i hyrwyddo a chefnogi dysgu eich plentyn yn ystod y cyfnod yma.

**Profion positif**

Os ydy'ch plentyn, neu aelod o'ch cartref yn derbyn prawf positif, mae'n hanfodol eich bod yn cysylltu gyda ni yn ddiymdroi drwy ebostio covid@ygcwmrhondda.cymru neu'n ffonio ar 01443680800.

**Symptomau**

Os yw'ch plentyn yn datblygu un o 4 symptom Covid-19 (tymheredd uchel, peswch newydd parhaus, colli blâs neu golli arogl) yna mae angen i'ch plentyn aros adref nes iddo dderbyn canlyniad negyddol prawf, neu am 10 diwrnod mewn achos o brawf positif. Bydd angen hefyd i bawb sydd yn byw yn y cartref ynysu tra'n aros canlyniad.

Yn olaf, diolch didwyll i chi am eich cefnogaeth barhaus ac am sicrhau ein bod yn cydsymud ac yn cydweithio fel un gymuned yn ystod y cyfnod nesaf hwn.

Hyderwn y bydd agwedd aeddfed a chadarnhaol eich plentyn, yn ogystal ag ymrwymiad di-flino a chefnogaeth ein staff, yn sicrhau y bydd y cyfnod dychwelyd yma yn un llwyddiannus a diogel i bawb.

Cofiwch gysylltu gyda ni os oes angen, rydym yma i'ch cefnogi.

Yn ddiffuant,

Craig Spanswick

Dirprwy Bennaeth

Ysgol Gyfun Cwm Rhondda
*Heol Graigwen*
*Cymer*
*Porth*
*Rhondda Cynon Taf*
*CF39 9HA*
*(01443) 680800* *swyddfa@ygcwmrhondda.cymru*

Wednesday 10/3/21

Dear Parent / Guardian,

I sincerely hope you and your families are well.

Following the Education Minister's announcement on March 3rd, confirming the return to school guidance for schools in Wales, we write in order to share our arrangements with you for the fortnight beginning **Monday 15th March, until the end of term on March 26th.**

As you are aware, the situation remains fluid, but if the rate of Covid-19 transmission continues to fall, then the aim is to fully open schools to all pupils following the Easter holidays, **on Monday 12th April.**

Naturally, we are all very much looking forward to welcoming our pupils back from next week, and in order to do this safely, ensuring the wellbeing and health of pupils and staff, these are the arrangements for every school year for this next period **(Monday 15/3 – Friday 26/3)**.

| | Year Group | Back to school arrangements: |
|---|---|---|
| **Week commencing 15 March** | **Year 11** | Present **every day** from Monday 15/3 to Friday 26/3 |
| | **Year 13** | Present **every day** from Monday 15/3 to Friday 26/3 |
| | **Year 12** | Present **every day from Wednesday** 17/3 to Friday 26/3 |
| | **Year 10** | **Friday 19/3** and then **every day from Monday** 22/3 to Friday 26/3 |

| | | |
|---|---|---|
| **Week commencing 22 March** | **Year 7** | Monday 22/3/21 and Tuesday 23/3/21 **only** |
| | **Year 9** | Tuesday 23/3/21 and Wednesday 24/3/21 **only** |
| | **Year 8** | Thursday 25/3/21 and Friday 26/3/21 **only** |

As well as the above arrangements, we will also continue to provide emergency childcare within our Hub provision. We kindly ask parents to apply for this **emergency** childcare in the usual way – information regarding this will be sent to Year 7+8 before the end of the week. Pupils attending the Hub will join their year groups on the relevant days.

During the days allocated to every year group, pupils will receive wellbeing support during daily pastoral sessions with their form tutor and time with their subject teachers to discuss their experiences of distance learning, as well as and preparing for new learning in the Summer Term.

**Offering support and encouragement to all our pupils will be our main focus as teachers as our pupils return to school.**

On the days pupils are **not** expected to physically attend school, work will continue to be provided on Google Classroom and we expect all pupils to continue with their distance learning during this period.

We expect **all** our pupils to return on the dates noted above, unless pupils are self-isolating due to shielding, or isolating due to a positive Covid-19 diagnosis. Please contact your child's Head of Year should you wish to discuss individual circumstances.

**Uniform**

We kindly ask all pupils to wear school uniform on the days they are attending school. **School polo shirts are allowed**. Pupils **can** also wear a school tie as part of their school uniform. **We also kindly ask that pupils attending the Hub also wear school uniform.**

**Lunch**

We kindly ask parents to continue to provide a packed lunch for pupils during this fortnight (15 March – 26 March). A packed lunch will be prepared for all pupils eligible for free school meals.

**Face Coverings**

**Face coverings should be worn at all times, including school corridors, school transport and classrooms where it is not possible to social distance**. Frequent putting on and removing of face coverings will be discouraged as this can risk contaminating hands and face. Staff will be provided with disposable surgical face coverings. We understand that some pupils will have a reasonable, medical reason for not wearing a face covering and in such instances won't be required to do so.

We ask any visitor to the school site to wear a face covering at all times.

**Please also remember that face coverings are not a replacement for far more effective measures such as social distancing and hand hygiene.**

**School Transport**

School transport will operate as usual. Pupils travelling on dedicated school transport must wear a face covering.

**Lateral Flow Tests**

From March 15th, pupils in Years 10 – 13 will have the opportunity to participate in twice weekly lateral flow tests. Staff have also been offered the same opportunity. We are awaiting further guidance on this matter and will share our arrangements with you once we receive the guidance from Welsh Government.

**Distance Learning**

Our provision will continue via Google Classroom on the days your child will not be physically attending school and we kindly ask you to continue to support and encourage your child during this period.

**Positive Diagnosis**

**If your child, or a member of your household receives a positive test result, it is vital you contact us as soon as possible via covid@ygcwmrhondda.cymru or telephone – 01443 680800**

**Symptoms**

If your child develops any of the 4 Covid-19 symptoms (high temperature, new, persistent cough, lose of taste, loss of smell), they must stay at home until they receive a negative result, or for 10 days in the case of a positive diagnosis. All household members will also need to isolate whilst awaiting a result.

Finally, sincere thanks to you for your continued support and for ensuring we continue to work together during this period.

We are confident that your child's mature and positive attitude, along with our staff's support and commitment, will ensure a safe and successful return to school for all.

Please contact us if we can be of any assistance, we are here to support you.

Yours sincerely,

Craig Spanswick

Deputy Head